**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: P-03-262

William Powell AM
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
petition@wales.gov.uk

25ain Tachwedd 2013

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Hydref oedd yn sôn am adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Academi Heddwch Cymru.

Rwy'n gwbl gefnogol i hyrwyddo heddwch o fewn ein cymunedau ond rwy'n cytuno â'r Pwyllgor bod rhaid gwneud gwaith archwiliadol pellach i ystyried pa swyddogaeth a pha rôl fydd gan yr Academi Heddwch yng Nghymru. Rwy'n gweld nad yw'r Pwyllgor wedi gallu penderfynu ar safbwynt ar y manylion ynghylch sut y byddai Academi o'r fath yn cael ei sefydlu a bod y deisebwyr eu hunain yn gyndyn i roi manylion pellach ar eu barn am rôl, swyddogaeth a gweithgareddau'r Academi Heddwch.

O dan yr amgylchiadau, teimlaf fod yr achos dros gael Academi Heddwch yng Nghymru yn parhau'n amhendant. Rwy'n sylwi bod y Pwyllgor wedi argymell trafodaethau pellach rhwng partïon sydd â buddiant yn y gymdeithas academaidd a'r gymuned ddinesig i ganiatáu i waith cwmpasu pellach gael ei wneud. Cytunaf y byddai hyn yn gam pwysig os yw'r achos dros gael Academi yn mynd i gael ei sefydlu ond nid wyf am dderbyn y dylai Llywodraeth Cymru hwyluso'r gwaith hwn.

Fel y dywedodd y Pwyllgor, rydym yn gweithredu mewn cyfnod cyllidol anodd iawn. Nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i roi adnoddau ar gyfer y math o waith archwiliadol a chwmpasu pellach y mae angen ei wneud o hyd. Beth bynnag, credaf y byddai'n well petai sefydliad annibynnol yn arwain ar y gwaith hwn. Os byddai Llywodraeth Cymru yn hwyluso trafodaethau ar hyn, rwy'n pryderu y bydd disgwyliadau afrealistig yn cael eu gosod o ran sefydlu Academi Heddwch. Er hynny, byddai swyddogion o Lywodraeth Cymru ar gael i gymryd rhan mewn trafodaethau, pe byddai hynny o help.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk